# Huw T. Edwards a Datganoli, 1945–1964

*Gwyn Jenkins*

O dderbyn gwireb Ron Davies mai *proses* nid *digwyddiad* yw datganoli ('devolution is a process, not an event'), yna adeg o arbrofi a thafoli opsiynau oedd y cyfnod o ddiwedd yr Ail Ryfel Byd hyd at sefydlu'r Swyddfa Gymreig yng Nghaerdydd, gydag Ysgrifennydd Gwladol yn ben arni, yn 1964. Nid oedd dim yn anochel yn y broses o ddatganoli yng Nghymru yn ystod y ganrif ddiwethaf, gan gynnwys y cyfnod dan sylw. Dywed un hanesydd bod datganoli wedi marw erbyn 1945,[1] ond wedi hynny atgyfodwyd y cysyniad, ac yn ystod y blynyddoedd dilynol bu unigolion a charfanau yng Nghymru yn troedio llwybrau a fyddai, maes o law, yn arwain at fesurau pellgyrhaeddol o ddatganoli. Ar yr un pryd, ni ddylid anwybyddu'r gwrthwynebiad chwyrn a gafwyd i'r broses yng Nghymru ei hun a thu hwnt.

O safbwynt y broses, mae'r eirfa a'r derminoleg a ddefnyddiwyd wrth drafod datganoli yn ddadlennol a thra diddorol. I rai, roedd angen dangos *cydnabyddiaeth* ('recognition') o fodolaeth Cymru fel gwlad neu genedl; i eraill, roedd datganoli'n rhan o gryfhau peirianwaith llywodraethu ('machinery of government' oedd y term a ddefnyddiwyd) heb fod hynny'n ymwneud o gwbl â chenedlaetholdeb fel y cyfryw; i eraill eto, roedd cydraddoldeb â'r Alban ('parity with Scotland') yn nod ynddo'i hun. Defnyddiwyd yn ogystal y term 'decentralization', sydd yn gyfystyr yn y Gymraeg â 'devolution', ond fel arfer cyfeiriai hynny at drosglwyddo grym i gynghorau sir a bwrdeistref. Yn wir, gwnaed awgrymiadau cyson ynghylch yr angen i ad-drefnu llywodraeth leol.

Ar y llaw arall, credai llawer mai canoli penderfyniadau yn San Steffan fyddai orau, gan y byddai creu cyfundrefn ddatganoledig neu ffederal yn arwain at lywodraethu aneffeithlon. Barn eraill oedd mai rhywbeth i'w orchfygu oedd cenedlaetholdeb ac na ddylid, ar unrhyw gyfrif, gynnig consesiynau i'r cenedlaetholwyr Cymreig.

Yn ystod y cyfnod wedi'r Rhyfel, felly, gwelwyd dadlau o blaid neu yn erbyn sawl patrwm o ddatganoli: Statws Dominiwn, annibyniaeth, hunanlywodraeth, senedd, ffederaliaeth, datganoli gweinyddol gyda, neu heb, ysgrifennydd gwladol i Gymru. Taflwyd yr holl syniadau i'r un pair, i'w trin a'i trafod gan genedlaetholwyr digyfaddawd, rhyddfrydwyr a sosialwyr cenedlaetholgar, gweriniaethwyr a sosialwyr rhyngwladol – heb anghofio Aelodau Seneddol oedd yn ofni colli grym. Ychwanegwyd at y pair hwn syniadau am hunaniaeth ac ymchwydd cenedlaethol ar y naill law, ynghyd â Phrydeindod digyfaddawd ar y llaw arall. Ac yn gefndir i hyn oll, roedd yr atgof am effaith dirwasgiad enbyd yr 1920au a'r 1930au ar Gymru

1 Duncan Tanner yn *Debating Nationhood and Governance in Britain, 1885–1945* (Manchester, 2006), t. 234.

yn parhau'n fyw iawn, heb sôn am ddylanwad y Rhyfel a chrebachu'r Ymerodraeth Brydeinig. O gofio hyn oll, nid yw'n syndod nad oedd y broses yn un llyfn na chwaith yn un y gellid bod wedi rhag-weld ei chanlyniad.

* * *

Un a oedd yn flaenllaw ym mywyd cyhoeddus Cymru ar yr adeg honno, ac a chwaraeodd ran bwysig yn natblygiad y broses o ddatganoli, oedd Huw T. Edwards.[2] Pan oedd yn anterth ei yrfa yn ystod yr 1950au, gelwid Huw T. Edwards yn 'Brif Weinidog Answyddogol Cymru' ac mae hynt a helynt ei yrfa yn y cyfnod hwn yn taflu goleuni ar y prosesau oedd ar waith ar y pryd, ac yn benodol ar agweddau llywodraethau Llafur a Cheidwadol y cyfnod a'r gweision sifil a'u cynghorai.

Pan ofynnodd y Prif Weinidog, Clement Attlee, yn 1948 i un o'i weinidogion mwyaf ffyddlon, Jim Griffiths, pwy ddylai fod yn gadeirydd cyntaf Cyngor Cymru a Mynwy, ateb y Cymro, heb betruso, oedd, 'Huw T. Edwards – he is the truly representative Welshman.'[3] Mae'n siŵr nad oes y fath beth yn bod â Chymro *identikit* gwir gynrychioliadol – ddoe na heddiw – ond roedd llawer o ffactorau yng nghefndir a phersonoliaeth Huw T. Edwards i gyfiawnhau sylw Jim Griffiths.

Ganed Huw T. Edwards (defnyddir yr enw 'Huw T.' o hyn allan yn yr erthygl hon) yn 1892, mewn bwthyn ar lethrau mynydd Tal-y-fan uwchlaw pentref bach gwledig Ro-wen yn nyffryn Conwy. Er mai ardal amaethyddol yw hon, yr ochr arall i'r mynydd saif tref Penmaenmawr gyda'i chwareli anferth. Nid chwareli llechi oedd y rhain, ond chwareli 'sett' lle y cloddiwyd gwenithfaen a'i dorri'n flociau ('setts') a ddefnyddid i adeiladu ffyrdd mewn dinasoedd megis Lerpwl a Manceinion. Roedd aelodau o deulu Huw T. yn dyddynwyr neu'n chwarelwyr yn ystod y cyfnod hwn. Pan oedd Huw T. yn blentyn ifanc, bu farw ei fam ac fe gafodd y digwyddiad trist hwn gryn effaith arno. Mae'n siŵr bod gwaed y rebel ynddo eisoes, ond roedd colli'i fam yn ergyd drom iddo a bu'r profiad yn ddylanwad pwysig ar ei ymddygiad yn ystod ei ieuenctid. Ni chafodd fawr ddim addysg o werth, ac yn dilyn cyfnod o weithio ar fferm ac mewn chwarel, mudodd yn fachgen un ar bymtheg mlwydd oed i'r Rhondda. Yno, yn y dyddiau byrlymus cyn y Rhyfel Byd Cyntaf, bu'n löwr, yn focsiwr dan yr enw 'Kid Edwards', yn yfwr trwm, a syrthiodd mewn cariad â merch o Aberfan, ond ni ddatblygodd y berthynas honno.

Mae'n debygol nad oedd Huw T. yn weithgar yn y mudiad llafur yn y cyfnod dan sylw. Arwydd o hyn oedd ei benderfyniad i ymuno â'r 'Special Army Reserve' er mwyn derbyn swllt y goron a chael mynd i wersylloedd ymarfer y fyddin. Oherwydd hyn, cafodd Huw T. ei alw i'r lliwiau ar ddiwrnod cyntaf y Rhyfel yn 1914 ac ymhen dim o dro roedd yn Ffrainc. Marchogaeth ceffylau oedd yn tynnu magnelau yn y Royal Field Artillery oedd gwaith Huw T. yn ystod y Rhyfel, a llwyddodd i oroesi'r gyflafan – o bosib oherwydd nad oedd yn gwasanaethu yn y

2 Ceir mwy o fanylion am fywyd a gwaith Huw T. Edwards yn fy nghofiant iddo: *Prif Weinidog Answyddogol Cymru: Cofiant Huw T. Edwards* (Y Lolfa, 2007).

3 *Western Mail*, 19 Awst, 1967.

ffosydd. Serch hynny, cafodd ei glwyfo'n ddifrifol yn ystod gwanwyn 1918. Yn naturiol, cafodd ei brofiadau yn y fyddin gryn effaith arno. Roedd yn gwrthwynebu militariaeth ond, yn wahanol i rai o'i gyfoedion, ni ddaeth yn heddychwr.

Erbyn yr 1920au, roedd Huw T. wedi symud yn ôl i'w hen gynefin yn ardal Penmaenmawr, gan weithio fel chwarelwr a phriodi merch o Fethesda. Dyma pryd y dechreuodd wleidydda o ddifri, gan ddod yn ysgrifennydd lleol yr Undeb Trafnidiaeth a Gweithwyr Cyffredinol (y T & G), yn ysgrifennydd Ffederasiwn Llafur Gogledd Cymru, ac yn gynghorydd ar gyngor tref Penmaenmawr. Roedd hwn hefyd yn gyfnod o galedi enbyd iddo ef a'i deulu. Bu ei unig fab farw'n blentyn ifanc, a threuliodd Huw T. gyfnodau'n ddi-waith. Fodd bynnag, yn 1932, cafodd ei benodi'n swyddog cyflogedig gyda'r T & G yn eu swyddfa yn Shotton, sir y Fflint. Ymhen fawr o dro daeth yn Ysgrifennydd Rhanbarth Gogledd Cymru o'r T & G ac yn un o hoelion wyth y Blaid Lafur yn y sir. Enwebwyd ef yn henadur ar y Cyngor Sir a daeth yn ffigwr o ddylanwad yn ei sir fabwysiedig ac, ar yr un pryd, yn berson adnabyddus ledled gogledd Cymru.

Erbyn yr 1940au, roedd Huw T. yn berson dylanwadol iawn ym mywyd cyhoeddus Cymru. Roedd wedi llwyddo drwy rym ei bersonoliaeth a'i garisma, a thrwy'r reddf naturiol honno a feddai rhai o'r dosbarth gweithiol na chawsant y fraint o dderbyn addysg brifysgol. Nid oedd yn ddeallusyn, ond yn aml llwyddai i ennill dadl trwy ddefnyddio'i alluoedd greddfol a chael y gorau ar wleidyddion o bob plaid.

Cyn yr Ail Ryfel Byd, nid oedd Huw T. wedi ymddiddori rhyw lawer mewn materion cyfansoddiadol, megis datganoli, gan ganolbwyntio'i holl egni ar faterion megis diweithdra a datblygiad economaidd. Serch hynny, cafodd gyfle yn 1944 i ddweud ei ddweud ar ddyfodol Cymru mewn cylchgrawn byrhoedlog o'r enw *Wales*. Golygydd y cylchgrawn hwnnw oedd Keidrych Rhys, gŵr o sir Gaerfyrddin a ddaeth yn un o Gymry Llundain amlycaf ei ddydd. Roedd erthyglau ar y cwestiwn cenedlaethol wedi ymddangos yn y cylchgrawn eisoes, gan gynnwys cyfraniad gan Jim Griffiths, a ddadleuai mai'r flaenoriaeth wedi'r Rhyfel oedd ceisio adfywio'r economi a sicrhau swyddi. Ymosododd ar bolisïau Plaid Cymru a oedd, yn ei farn ef, yn anymarferol, ond dadleuodd o blaid trosglwyddo mwy o rym i awdurdodau lleol; yn ogystal, cefnogai'r syniad o sefydlu Swyddfa Gymreig a phenodi Ysgrifennydd Gwladol gyda sedd yn y cabinet. Ymatebodd Gwynfor Evans yn rhifyn hydref 1943 o *Wales* gan gyhuddo Jim Griffiths o ofnusrwydd ac o wrthod trin Cymru fel endid cenedlaethol. Ym marn Gwynfor Evans: 'The fate of Welsh national life will continue to be decided "by a group of gentlemen sitting in London", as Mr Bevin once put it – before he joined them.'[4]

Nid oedd chwarae'n saff yn rhan o anian Huw T., ac mae ei erthygl ef – dan y teitl *What I Want for Wales,* a gyhoeddwyd yn rhifyn Ionawr 1944 o'r cylchgrawn – yn cynnig amrywiaeth o feddyginiaethau i broblemau Cymru.[5] Er enghraifft,

4 *Wales*, 1 (Gorffennaf, 1943), 7–10; *Wales*, 2 (Hydref, 1943), 19–26.
5 *Wales*, 3 (Ionawr, 1944), 12–16.

roedd am weld symud 25% o boblogaeth y Rhondda yn orfodol i ardaloedd newydd am resymau economaidd. Dadleuai nad oedd digon o le yn y Rhondda ar gyfer poblogaeth mor uchel. Dadleuodd hefyd y dylid dymchwel 75% o eglwysi a chapeli Cymru, neu eu defnyddio i bwrpasau amgenach. Byddai hefyd wedi hoffi gweld yr iaith Gymraeg yn bwnc gorfodol yn holl ysgolion Cymru.

Fodd bynnag, prif fyrdwn ei neges oedd yr angen am hunanlywodraeth i Gymru. Credai nad oedd modd dychwelyd at yr hen Gymru, bod y rhai a wasanaethai yn y Rhyfel yn disgwyl dod yn ôl i wlad well, ac mai'r unig ffordd o sicrhau hynny oedd trwy i Gymru gael yr hawl i reoli ei thynged ei hun. Beirniadodd y Blaid Lafur Brydeinig am ei hagwedd at y galwadau am ddatganoli grym i Gymru: 'Twenty years ago I feel certain that the Party would not have treated Wales in this way. The rights of small nations were an integral part in the policy of the Party in those days; whether they are to-day is extremely doubtful.'

Roedd hefyd am weld sefydlu plaid sosialaidd Gymreig a chanddi'r pŵer i benderfynu polisi ar bob mater a effeithiai ar Gymru. Byddai ganddi aelodaeth gyswllt â'r Blaid Lafur yn Lloegr, a chyswllt â mudiadau sosialaidd rhyngwladol, ond fe fyddai'n annibynnol o ran trefniadaeth. Beirniadodd hefyd y pleidiau eraill, a galwodd ar elfennau blaengar Cymru i ddod at ei gilydd: 'I say again that if we had the courage to forget our Party tags and labels and got together to hammer out a progressive policy for Wales, that the matters that keep us apart to-day would melt away.'

Cynhyrfu'r dyfroedd oedd bwriad Huw T. yn yr erthygl hon – roedd hi'n un enghraifft o'i allu i hyrwyddo'i syniadau ei hun ac ennyn dadl. Serch hynny, go brin fod ei syniadau wedi dylanwadu ar bolisïau'r Blaid Lafur, na chwaith ar lywodraeth y blaid honno a ddaeth i rym yn dilyn y fuddugoliaeth ddisglair yn etholiad 1945. Yn fuan wedi ffurfio'r llywodraeth newydd, cafwyd ymgais gan Aelodau Seneddol Cymreig i ddwyn perswâd ar y llywodraeth i sefydlu'r swydd o Ysgrifennydd Gwladol, gyda sedd yn y cabinet. Dyma'r 'parity with Scotland' y cyfeiriwyd ato'n gynharach. Ond gyda'r llywodraeth yn canolbwyntio ar daclo problemau'r economi o'r canol, a llunio polisïau a fyddai'n sicrhau gwell cyfiawnder cymdeithasol ym Mhrydain, ymylol i'w rhaglen oedd galwadau'r Aelodau Cymreig. Y farn gyffredinol yn y Cabinet oedd na fyddai sefydlu'r swydd o Ysgrifennydd Gwladol yn debygol o ateb problemau economaidd Cymru.

Gyda'r Aelodau Cymreig yn methu ennill y dydd, penderfynodd Huw T. ddilyn ei gwys ei hun a chynnig opsiynau gwahanol. Yn fuan wedi clywed am ymateb negyddol y Prif Weinidog, Clement Attlee, i gynigion yr Aelodau Seneddol Cymreig, lluniodd Huw T. femorandwm ym Medi 1946 yn dwyn y teitl 'The Problem of Wales', a'i anfon at Morgan Phillips, ysgrifennydd cyffredinol y Blaid Lafur. Yn y memorandwm hwn, pwysleisiodd Huw T. yr angen i gydnabod Cymru fel gwlad oedd yn meddu ar ei hiaith, ei diwylliant a'i thraddodiadau ei hun, a chyfeiriodd at y canfyddiad nad oedd gan San Steffan gydymdeimlad o fath yn y byd tuag at ddyheadau'r Cymry. Yn ei farn ef, nid oedd y safbwynt a gyflwynai'n

deillio o syniadaeth eithafol, ond yn hytrach oddi wrth Gymry meddylgar, a chyfeiriodd at yr hyn a alwai'n broblem seicolegol y Cymry na ellid ond ei hateb drwy gydnabod Cymru fel uned weinyddol. Yn groes i farn llawer o wleidyddion Cymreig, cytunai Huw T. â phenderfyniad y llywodraeth i wrthod yr alwad am Ysgrifennydd Gwladol i Gymru ar sail anawsterau gweinyddol. Yn lle hynny, awgrymodd y dylid penodi Comisiynydd dros Gymru, a phwyllgor ymgynghorol i'w gynorthwyo. Byddai gan y Comisiynydd hwn hawl i gysylltu'n uniongyrchol â'r Cabinet heb yn gyntaf orfod ymgynghori â'r gwasanaeth sifil, ac yn sgil ei swyddogaeth ddeublyg gallai gyfleu i'r Cabinet anghenion Cymru a chyflwyno i bobl Cymru farn y Cabinet ar faterion penodol.

Er ei fod yn Gymro Cymraeg a fagwyd yng Nghwm Rhymni, nid oedd gan Morgan Phillips fawr o gydymdeimlad â safbwynt Cymry cenedlaetholgar na datganoli, ac i bob pwrpas anwybyddwyd memorandwm Huw T. Y mis canlynol, yn ystod y Ddadl Gymreig yn Nhŷ'r Cyffredin, cyhoeddwyd nad oedd y llywodraeth yn derbyn y dadleuon o blaid datganoli; yr unig gonsesiynau a gynigiwyd oedd cyhoeddi papur gwyn blynyddol ar weithrediadau'r llywodraeth yng Nghymru a sefydlu pwyllgor o brif weision sifil adrannau'r llywodraeth yng Nghymru. Nid oedd hyn yn plesio Huw T. o gwbl, ac fe'i hysgogwyd i ysgrifennu'n uniongyrchol at Arglwydd Lywydd y Cyngor, Herbert Morrison, ac wedi hynny, ar 16 Rhagfyr, anfonodd lythyr agored at y Prif Weinidog ei hun. Cyhoeddwyd y llythyr hwn yn ei gyfanrwydd yn y wasg, gan gynnwys fersiwn Cymraeg ohono yn *Y Cymro*.[6]

Yn ei lythyr, mynegodd Huw T. ei safbwynt yn gwbl ddiamwys. Er yn canmol y llywodraeth, ysgrifennai at Attlee am ei fod '[...] yn Gymro gyda'r argyhoeddiad nad brawdoliaeth gydwladol yn unig yw Sosialaeth, ond hefyd hawl pob cenedl i wneud ei chyfraniad ei hun yn ei ffordd ei hun i hapusrwydd cyffredinol dynoliaeth.' Pwysleisiodd nad oedd o blaid y syniad o gael Ysgrifennydd Gwladol i Gymru, ond yr oedd hefyd yn gwrthod credu y byddai'r llywodraeth yn gwrthod ymateb yn gadarnhaol i ofynion rhesymol pobl Cymru. Ofnai fod llawer o Gymry o'r farn nad oedd gan y llywodraeth unrhyw awydd i werthfawrogi na deall eu problemau arbennig hwy. Ni chredai fod pwyllgor o weision sifil yn dderbyniol; yn hytrach, cynigiai y dylid penodi ysgrifenyddion seneddol i ymdrin ag addysg, amaethyddiaeth ac iechyd yng Nghymru. Roedd hefyd am weld sefydlu gweinyddiaethau Iechyd ac Amaeth yng Nghymru, yn unol â phatrwm y weinyddiaeth Addysg, gyda chyswllt uniongyrchol â'r gweinidog perthnasol. Yn ogystal, pwysleisiodd yr angen i sefydlu Pwyllgor Ymgynghorol gyda swyddfeydd yng Nghaerdydd.

Trwy wrthwynebu'r syniad o Ysgrifennydd Gwladol, roedd Huw T. yn mynd yn groes i un o brif ffrydiau syniadaeth y Blaid Lafur yng Nghymru ar y pryd. Fodd bynnag, roedd hefyd yn ddigon o hen lwynog i sylweddoli bod y llwybr hwnnw at ddatganoli wedi'i gau gan y llywodraeth am y tro ac mai ofer fyddai ceisio'i droedio eto. Yn y cyfnod hwn, roedd yn chwilio am ffordd arall o sicrhau

6 *Y Cymro*, 27 Rhagfyr 1946.

elfen o ymdrin â Chymru fel endid. I raddau helaeth, felly, ef oedd yn gyfrifol am osod agenda newydd yn y ddadl dros ddatganoli yn y cyfnod 1946/47.

Canlyniad trafodaethau pellach o fewn y Blaid Lafur a'r llywodraeth ar ddiwedd yr 1940au oedd cyfaddawd a gâi ei ystyried yn gyffredinol fel *sop* i Gymru, sef sefydlu cyngor ymgynghorol enwebedig o'r enw Cyngor Cymru a Mynwy. Gobeithiai Herbert Morrison, y gweinidog oedd yn gyfrifol am y trefniadau, y byddai sefydlu'r Cyngor hwn yn ddigon o reswm i gau pen y mwdwl ar y dadleuon am ddatganoli. I raddau helaeth, roedd syniad Huw T. wedi'i dderbyn, a'r 'truly representative Welshman', Huw T. ei hun, a benodwyd yn gadeirydd y Cyngor a gyfarfu am y tro cyntaf yn 1949.

Dioddefodd y Cyngor feirniadaeth lem o du'r wasg a'r cyhoedd. Roedd corff enwebedig diddannedd, a hwnnw'n cyfarfod y tu ôl i ddrysau caeedig, yn naturiol yn agored i feirniadaeth. Mynegodd yr hanesydd R. T. Jenkins y gred gyhoeddus ar y pryd: 'Here, it was said, was yet another impotent committee, in a land whose sky was already dark with committees.'[7] Nid oedd modd i Huw T. guddio rhag y feirniadaeth gyffredinol. Ar ddiwedd 1949 awgrymodd, 'I am the chairman of a Council no one likes,' ond roedd hefyd o'r farn bod y Cyngor yn '[...] one further recognition that Wales is a Nation'.[8] Yn hyn o beth roedd yn gywir. Tueddai llywodraeth Lafur y dydd i ganoli grym yn Llundain, heb ystyried y gwahaniaethau rhwng cenhedloedd Prydain. Yn awr rhoddwyd math o gydnabyddiaeth fod Cymru'n wahanol a chanddi ei phroblemau ei hun. Fodd bynnag, roedd talcen caled o flaen y Cyngor i ennyn ymddiriedaeth a chefnogaeth pobl Cymru.

Prif gyfraniad Cyngor Cymru yn ystod yr 1950au oedd yr astudiaeth a wnaed i'r drefn o weinyddu Cymru – ymchwil a arweiniodd at adroddiad tra phwysig ar ddatganoli a adwaenid fel y Trydydd Memorandwm.[9] Roedd y Trydydd Memorandwm yn cynnwys galwad am sefydlu Swyddfa Gymreig ac Ysgrifennydd Gwladol yn bennaeth arni. Cwblhawyd y Memorandwm ym mis Hydref 1956 a'i gyhoeddi yn Ionawr 1957. Nid oes amheuaeth bod yr achos a roddwyd gerbron y llywodraeth yn un cryf. Roedd yn seiliedig ar ymchwil fanwl i beirianwaith llywodraethu Cymru, gan brofi – pe bai hynny'n bosibl – y byddai trefn newydd o weithredu'n debygol o fod yn fwy effeithiol o safbwynt gweinyddu Cymru. Derbyniodd y Memorandwm gymeradwyaeth gyffredinol yng Nghymru. Ni fyddai'r argymhellion yn debygol o fodloni'r cenedlaetholwyr hynny a alwai am senedd ond, o'i weithredu, byddai'n gam ymlaen at gydnabod Cymru fel endid cenedlaethol.

Er mai'r Ceidwadwyr oedd mewn grym yn San Steffan erbyn hynny, rhoddodd y Trydydd Memorandwm hwb i'r Blaid Lafur i ddatblygu ei pholisïau. Cafwyd gwrthwynebiad chwyrn gan rai Aelodau Seneddol Llafur i'r awgrym o drin

7 *The Annual Register*, 1949, tt. 69–71.
8 *Liverpool Daily Post*, 5 Rhagfyr 1949.
9 Trydydd Memorandwm Cyngor Cymru, 1957, cmd. 53.

Cymru fel endid cenedlaethol, a dim ond trwy ddyfalbarhad Huw T. a'i debyg y llwyddwyd i wthio datganoli i frig yr agenda. Yn hyn o beth roedd dylanwad Jim Griffiths yn allweddol – ac, yn annisgwyl, dylanwad Aneurin Bevan yn ogystal – a daeth sefydlu swydd Ysgrifennydd Gwladol gyda sedd yn y cabinet, a Swyddfa Gymreig yng Nghaerdydd, yn rhan o bolisi'r Blaid Lafur erbyn etholiad cyffredinol 1959.[10] Er i Lafur golli'r etholiad hwnnw, gwireddwyd y polisi yn dilyn buddugoliaeth Harold Wilson yn 1964.

* * *

Yn draddodiadol, nid oedd y Blaid Geidwadol yn ffafrio datganoli, a chlaear oedd ymateb y llywodraeth a'i Phrif Weinidog, Harold Macmillan, i'r Trydydd Memorandwm. Roedd y penderfyniad wedi'i wneud yn gynnar yn 1957 i wrthod y prif argymhellion, ond aeth misoedd heibio cyn y cafwyd ymateb ffurfiol. Yn ystod wythnosau olaf 1957 bu Huw T. wrthi'n trafod a dadlau gyda'r llywodraeth, gan ddefnyddio'r holl sgiliau negodi a ddysgodd dros y blynyddoedd. Ddiwedd Hydref paratôdd Henry Brooke femorandwm maith ar gyfer sylw'r Prif Weinidog yn esbonio'i safbwynt.[11] Henry Brooke oedd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, ond ef hefyd oedd y Gweinidog dros Faterion Cymreig – swyddogaeth a gyflwynwyd am y tro cyntaf gan y llywodraeth Doriaidd yn 1951.

Barnai Henry Brooke bod angen 'imaginative handling' ar ddatganiad y llywodraeth ar y Trydydd Memorandwm ac nid oedd am weld 'a blankly negative announcement'. Honnai:

> Feeling is running high in Wales just now, and therefore Welsh Affairs need particularly sensitive handling if we are not to stir up trouble there [...] It is imperative to avoid creating a situation where the large body of sensible and thoughtful people in Wales start – albeit reluctantly – to support the aims, though not the methods, of the Welsh Nationalists, through the spread of the feeling that Wales is merely used by the English for their convenience, and not treated a nation of its own, whose problems need special attention on their own merits.

Cyfeiriodd at achos Tryweryn. Hwn oedd y cyfnod pryd y cafwyd gwrthwynebiad chwyrn yng Nghymru yn erbyn cynllun Lerpwl i foddi Cwm Celyn yn sir Feirionnydd er mwyn cyflenwi dŵr i'r ddinas. Barn Brooke oedd nad oedd ganddo unrhyw ddewis ond cefnogi Lerpwl, gan mai dyma oedd yr unig ateb rhesymol i anghenion dŵr Lerpwl.

Fodd bynnag, ei brif ystyriaeth oedd gwella'r berthynas â Chymru ac nid caniatáu iddi ddod '[...] as in truth it might become if we took no trouble, another Ireland'. Aeth ymlaen i sôn am Huw T, gan fynegi ei barch a'i hoffter ohono:

10 Gwyn Jenkins, 'Keeping up with Macs: The Devolution Debate of 1957–59', *Planet*, 82, 84–9.
11 Archifdy Gwladol, PREM 11/2204.

> [Huw T. Edwards], an elderly trade unionist of the best type and nationally respected figure, who welcomed my appointment [...] has now turned sour. My personal relationship with him is of the friendliest, but he has been much criticised in Wales for welcoming the appointment, and unfortunately there has been nothing so far to prove that he was right. On the contrary, Tryweryn is widely thought to have proved him wrong.

Aeth ymlaen i grybwyll syniad a gyflwynwyd iddo gan Huw T., lle y byddai'r Gweinidog dros Faterion Cymreig yn cael y teitl Ysgrifennydd Gwladol dros Gymru, heb o angenrheidrwydd dderbyn pwerau swydd o'r fath. Ystryw oedd yr awgrym hwn gan Huw T.; gwyddai y byddai mabwysiadu'r teitl yn sicr o arwain, maes o law, at alwadau i ychwanegu at rym y swydd. Ysgrifennodd Huw T. at Brooke yn pwyso am y teitl Ysgrifennydd Gwladol: 'We all feel that probably it would be impossible in one bite to concede all that the Council has spelt out in its Third Memorandum and we are conscious of the fact that probably some compromise has to be arrived at.' Ei obaith oedd y byddai'r cyfaddawd yn cynnwys y teitl Ysgrifennydd Gwladol, os nad y pwerau. Gwyddai y byddai'r cynnig hwn yn creu anawsterau i'r llywodraeth, a dyna'n union a ddigwyddodd.

Mewn memorandwm arall at y Prif Weinidog, dyddiedig 25 Tachwedd 1957, mynegodd Brooke ei gefnogaeth i syniad Huw T. a'i barodrwydd ef ei hun i dderbyn beirniadaeth gan yr 'intelligentsia' a fyddai'n sicr o weld trwy'r cynllun.[12] Barnai y byddai gwrthod creu'r teitl yn siomi dau fath o Gymro: y Cymro cyffredin na wyddai ddim oll am weinyddiaeth y llywodraeth, ond a oedd yn genfigennus o'r Alban, a chefnogwyr y Ceidwadwyr yng Nghymru a oedd wedi'u hargyhoeddi y byddai'r Sosialwyr yn cynnig hyn erbyn yr etholiad nesaf.

Gwrthod y syniad a wnaeth llywodraeth Macmillan, a chyhoeddwyd yn fuan wedi hynny nad oedd y llywodraeth yn fodlon derbyn argymhellion Cyngor Cymru. Yn lle hynny, penderfynwyd penodi Gweinidog Gwladol dros Faterion Cymreig i gynorthwyo'r Gweinidog Materion Cymreig, a weithredai'n rhan amser yn y maes. Byddai'r gweinidog newydd yn gweithio'n llawn amser o Gaerdydd ac yn treulio'i holl amser yn delio â materion Cymreig. Byddai'n cadeirio Cynhadledd Penaethiaid Adrannau'r Llywodraeth yng Nghymru ac yn cadw cysylltiad agos â Chyngor Cymru; byddai hwnnw'n parhau fel corff annibynnol a'i swyddogaeth fyddai cynghori'r llywodraeth.

Ar yr un pryd, cyhoeddwyd mai'r Cynghorydd D. V. P. Lewis, perchennog cwmni cloddio cerrig yn sir Frycheiniog a chadeirydd y Ceidwadwyr yng Nghymru, fyddai'r gweinidog newydd. Câi ei ddyrchafu i Dŷ'r Arglwyddi dan yr enw Arglwydd Brecon. Yn ddiddorol, dewiswyd y Cynghorydd Lewis yn hytrach nag unrhyw un a oedd eisoes yn aelod o Dŷ'r Arglwyddi gan y

12 Ibid.

bernid nad oedd yr un arglwydd 'of pure Welsh blood' yn gymwys.[13] Cafodd yr Arglwydd Brecon drafferth i wrthsefyll y feirniadaeth ei fod yn rhy ansylweddol i gynrychioli Cymru ac, mewn gwirionedd, nid oedd yn ddim mwy na negeswas di-rym.

Yn ystod 1958 gwelwyd rhyfel geiriol rhwng Cyngor Cymru a'r llywodraeth, ond yn hyn o beth nid oedd gan y Cyngor obaith o ennill unrhyw frwydr yn erbyn llywodraeth y dydd. Ym mis Hydref 1958 ymddiswyddodd Huw T. yn ddisymwth o gadeiryddiaeth y Cyngor, gan ddenu cryn gyhoeddusrwydd ac achosi peth trafferth i Henry Brooke a'r llywodraeth. Ysgrifennodd Brooke at y Prif Weinidog ar 7 Tachwedd:

> I had no knowledge that he intended resignation. I cannot say that I regret it, although my personal relations with him have always been friendly, and remain so. He has done valuable work, but he has dominated the Council for too long, and in recent times he has done little except criticise the Government.[14]

Roedd y Ceidwadwyr, felly, yn barod i gynnig ychydig o gonsesiynau mewn ymateb i alwadau Cyngor Cymru, ond mewn gwirionedd nid oedd awydd i newid y *status quo* o gadw'r grymoedd llywodraethol yn Llundain.

* * *

Trwy gydol y cyfnod dan sylw, câi llywodraethau Llafur a Cheidwadol fel ei gilydd eu cynghori gan weision sifil dylanwadol. Yn ei lythyr yn ymddiswyddo fel cadeirydd Cyngor Cymru yn 1958, rhoddodd Huw T. lawer o'r bai am ei rwystredigaeth ar y drefn o lywodraethu canolog o Lundain, ac yn arbennig felly yr hyn a alwai'n 'Whitehalliaeth' ('Whitehallism'). Cwynodd fod y llywodraeth wedi dangos 'diffyg ymddiriedaeth llwyr yn y Cyngor [...] na dim arlliw o'r trafod llawn ac agored yr honasid ar y cychwyn ei fod mor bwysig er mwyn i'r Cyngor lwyddo.' Taranodd yn erbyn ymateb tila'r llywodraeth i'r Trydydd Memorandwm, gan gyfeirio at fanteision y drefn yn yr Alban. Yn ei farn ef, 'Ysgrifennydd Gwladol yw'r lleiaf y gellir ei roddi i Gymru.' Cwynodd nad oedd yr ychydig weision sifil a leolwyd yng Nghymru yn cael chwarae teg, a chan ddefnyddio ymadrodd a luniwyd ganddo ef ei hun, dywedodd: 'Nid oes llygedyn o obaith i Whitehalliaeth fyth ddeall dyheadau'r Cymry [...].' Yn y gynhadledd i'r wasg a gynhaliwyd ar ôl yr ymddiswyddiad, dywedodd: 'I think Whitehall is snubbing Wales [...] Ministers are weak-kneed in the presence of the gods and goddesses of the Civil Service,' a 'Nes cawn ni leihad ar awdurdod y crachach yn Whitehall, nid oes obaith am gyfiawnder i Gymru.'[15]

13 Ibid.
14 Archifdy Gwladol, PREM 11/4597.
15 Huw T. Edwards, *Troi'r Drol* (Denbigh, 1963), tt. 15–28; *Western Mail*, 25 Hydref 1958; *Y Ddraig Goch*, Rhagfyr 1958.

Tra gellid cyfeirio at wleidyddion penodol fel y rheswm dros rwystredigaeth y Cyngor, yr oedd cyfeirio at rym y drefn weinyddol yn codi cwestiynau ynglŷn â natur llywodraethu. Yn y dyddiau hynny, ymhell cyn i'r llywodraeth ddechrau cyflogi llu o ymgynghorwyr proffesiynol sydd erbyn heddiw wedi newid y sefyllfa i raddau, câi Prydain ei gweinyddu gan fyddin o weision sifil, llawer ohonynt yn parhau i ddilyn traddodiad yr het fowler. Nid oes amheuaeth fod mandariniaid Whitehall yn aruthrol o bwerus. Mae darllen cofnodion y llywodraeth o'r cyfnod hwn yn awgrymu bod gan Huw T. bwynt dilys ynglŷn ag agwedd Whitehall at Gymru, a bod yna wrthwynebiad sefydliadol i newidiadau cyfansoddiadol. Yn Whitehall roedd traddodiad cryf o reoli'r Ymerodraeth Brydeinig, a hynny mewn dull uchelwrol, ac nid oedd gan yr ychydig weision sifil a weithiai yng Nghymru ryddid i weithredu: 'Policy was handed down from above,' meddai un ohonynt.[16]

Yn gyffredinol, felly, nid oes amheuaeth fod gan weision sifil unigol fel Syr Norman Brook (Arglwydd Normanbrook wedi hynny), ysgrifennydd y cabinet, a Dame Evelyn Sharpe, ddylanwad aruthrol ar eu meistri gwleidyddol. Ystyrid nad oedd Syr Norman Brook yn 'neutral' ac na fyddai'n ymatal rhag '[...] pressing his own opinions in the steering briefs he penned for the prime minister'. Yng ngolwg Macmillan roedd Syr Norman Brook yn '[....] always right. Pure inborn judgement [...]' ac yn ystod cyfnod Winston Churchill fel Prif Weinidog iddo ddod yn '[...] influential beyond a point that traditionalists would think proper'. Yr oedd Evelyn Sharpe hefyd yn ffigwr o bŵer sylweddol. Honnai Richard Crossman, gweinidog yn llywodraeth Harold Wilson, ei bod hi'n '[...] tremendous patrician and utterly contemptuous and arrogant, regarding local authorities as children which she has to examine and rebuke for their failures. She sees ordinary human beings as incapable of making a sensible decision.'[17] Nid yw'n syndod, felly, nad oedd Huw T. a'i debyg yn ei chael yn rhwydd i gydweithio â phobl o'r anian hon.

Mae cofnodion y llywodraeth ar gyfer y cyfnod ar ddiwedd 1957, wrth iddi geisio ymateb i'r pwysau o du Huw T. a Chyngor Cymru, yn ddadlennol. Cyfeiriwyd yn gynharach at y cyfaddawd a gynigiwyd gan Huw T., sef y gallai'r Llywodraeth greu'r teitl Ysgrifennydd Gwladol, ond na fyddai'r swydd yn cario unrhyw bwerau penodol. Roedd rôl y gweision sifil yn y penderfyniad i wrthod y cynllun yn allweddol. Trafodwyd y syniad gan Dame Evelyn Sharpe a Syr Norman Brook, a lluniodd yntau femorandwm at y Prif Weinidog gan fynegi'i farn yn ddiamwys. Dywedodd fod Henry Brooke yn cytuno nad oedd modd derbyn y cynnig ar sail ystyriaethau ymarferol a gweinyddol, ond credai '[...] as we are dealing with Wales, we cannot be guided solely by logic.' Byddai caniatáu defnyddio'r teitl Ysgrifennydd Gwladol yn rhoi 'emotional satisfaction' i Gymru, ond cyngor Syr Norman a Dame Evelyn oedd y dylai'r Prif Weinidog wrthod y syniad.[18]

Cynhaliwyd cyfarfod o'r Cabinet ar 3 Rhagfyr 1957, pryd y cytunwyd i raglen a fyddai'n cynnwys rhai newidiadau yn y dull o weinyddu Cymru (fel a

16 Cyfweliad gyda John Clement, 24 Mehefin 1988.
17 Peter Hennessy, *Whitehall* (London, 1988), tt. 145–7, 437.
18 Archifdy Gwladol, PREM 11/2204.

nodwyd yn gynharach) ond ni ddaethpwyd i benderfyniad ar y cwestiwn o roi'r teitl Ysgrifennydd Gwladol i'r gweinidog. Roedd y Prif Weinidog am ystyried y mater ymhellach. Serch hynny, nid oedd y gweision sifil yn segur yn y cyfnod hwn. Anfonwyd neges gan un ohonynt ar 5 Rhagfyr at y Prif Weinidog, yr Ysgrifennydd Cartref, R. A. Butler, a Henry Brooke, a oedd yn mynychu parti 'cocktail' ar y pryd, yn honni, petai'r swydd o Ysgrifennydd Gwladol yn cael ei chreu yna byddai angen i'r deilydd fod yn gyfrifol am wasanaethau megis y gwasanaeth sifil, y gwasanaeth tân, cyfraith a threfn, a hyd yn oed yr hawl i ddangos trugaredd mewn achosion o'r gosb eithaf yng Nghymru. Y neges, felly, oedd na ddylid caniatáu hyn ar unrhyw gyfrif.

Ar yr un diwrnod cyfarfu Huw T. a'r Prif Weinidog, ynghyd â Henry Brooke, yn Nhŷ'r Cyffredin i drafod y sefyllfa. Barnai Huw T. yn ei gyfrol hunangofiannol *Troi'r Drol* mai gwastraff amser oedd yr awr o gyfarfod – 'awr o nonsens' oedd hi yn ei farn ef. Beth bynnag oedd y gwirionedd am yr 'awr o nonsens', nid oedd y frwydr wedi'i cholli ar 5 Rhagfyr. Roedd llythyron eisoes wedi cael eu drafftio yn cadarnhau bod swydd Ysgrifennydd Gwladol i'w chreu, er nad oeddent eto wedi'u harwyddo. Yn ei ddyddiadur am y diwrnod hwnnw nododd Macmillan: 'Wales to be settled – S. of State or not? A great many formal and constitutional arguments are now being addressed by the Home Office (who are persistently opposed to this change). Meanwhile, the Chief Whip suggests the title "Chancellor of the Principality of Wales". But this would require legislation?'[19]

Yr oedd y cyfeiriad at y Swyddfa Gartref yn arwyddocaol. Byddai Macmillan yn aml yn cyfeirio at y ffaith bod ganddo ormod o beli yn yr awyr ar yr un pryd, ac nid oedd ganddo ddiddordeb mewn materion cartref: 'I left that side all to Rab [R. A. Butler] and Henry Brooke,' meddai. Yn yr achos hwn, Butler, yr Ysgrifennydd Cartref, oedd yn gyfrifol am danio'r ergyd a laddodd syniad Huw T. Ar 6 Rhagfyr, yn dilyn cyfarfod gyda Syr Norman Brooke, Dame Evelyn Sharpe a Chwnsler Seneddol, anfonodd femorandwm at y Prif Weinidog:

> The principal conclusion is that, constitutionally, a Secretary of State for Wales need not exercise any administrative functions. But the real issue is one of practical politics. Can we resist pressure to give the new Secretary of State, from the moment of his creation, the functions at present exercised in Wales by the Home Secretary [...]? The Welsh will certainly not leave their new Secretary of State powerless and unoccupied for long.
>
> I myself feel that a paper change of name, unaccompanied by a transfer of functions, would be unlikely to appease Welsh sentiment. Would it not be more likely to inflame it? Even if we felt able to resist the pressure for transfer of functions which would build up, I do not think our successors would be able to do so.[20]

19 Rhydychen, Llyfrgell y Bodleian, Dyddiadur Macmillan, 1957.
20 Archifdy Gwladol, PREM 11/2204.

Erbyn 10 Rhagfyr roedd Macmillan wedi dod i benderfyniad. 'I have wavered a good deal about this,' meddai wrth Brooke, ond roedd wedi dod i'r casgliad y byddai ei benodi'n Ysgrifennydd Gwladol yn '[...] a rather bogus plan, the purpose of which is psychological and to some extent political.' Credai hefyd: '[...] there are possibilities for the future which should not be jeopardised.' Yn ei ymateb, awgrymodd Brooke y byddai Cymru'n siomedig: 'I expect it will rekindle the rather distracting agitation for the title as a symbol of national status. The Joneses want so much to keep up with the Macs.'[21] Mae'n ddiddorol ystyried, serch hynny, y gallai'r swydd Ysgrifennydd Gwladol fod wedi dod i fodolaeth chwe mlynedd cyn 1964, a Cheidwadwr wrth y llyw. Fodd bynnag, er mai penderfyniad gwleidyddol gan weinidogion y llywodraeth oedd hwn, nid oes amheuaeth chwaith bod gwrthwynebiad sefydliadol o fewn Whitehall i ddatganoli yn ystod y cyfnod hwn. Mae dylanwad gweision sifil ar bolisi a gweithredu polisïau'r llywodraeth yn fawr, fel y profodd Huw T. yn ei frwydrau.

* * *

Enillwyd Etholiad Cyffredinol 1959 gan y Ceidwadwyr, ac am gyfnod ni chafwyd unrhyw ddatblygiadau mawr yn y broses o ddatganoli. Mae'n bwysig cofio bod Huw T., o ddewis, yn ffafrio mesur o hunanlywodraeth yn hytrach na datganoli gweinyddol, ac wedi methiant argymhellion Cyngor Cymru bu'n pledio achos Senedd. Ychydig wythnosau cyn etholiad 1959, am nifer o resymau, ymddiswyddodd Huw T. o'r Blaid Lafur – plaid y bu'n flaenllaw ac yn weithgar ynddi am ddeugain mlynedd – ac ymuno â Phlaid Cymru. Ni chafodd Huw T. fawr o ddylanwad ar ei blaid newydd ac nid oedd, a defnyddio sylw Gwilym Prys Davies, bellach 'yn rym yn y tir'. Serch hynny, mae un elfen o'r hanes yn haeddu sylw arbennig.

Wedi siom etholiad 1959, wynebai Plaid Cymru a'i harweinydd gyfnod anodd tu hwnt. Cynyddodd y feirniadaeth o'r arweinyddiaeth ymhlith sawl carfan o genedlaetholwyr. Credai criw o Babyddion, a oedd yn hanner-addoli Saunders Lewis, nad oedd Gwynfor Evans yn dangos arweiniad digon cadarn, yn arbennig yn achos Tryweryn. Credent y dylid bod wedi dilyn esiampl Penyberth a gweithredu'n uniongyrchol. Dyma hefyd oedd barn rhai aelodau ifanc tanbaid, yn arbennig felly fyfyrwyr o golegau prifysgol Bangor ac Aberystwyth a aeth ati maes o law i sefydlu Cymdeithas yr Iaith Gymraeg. Ar yr un pryd, roedd llawer o aelodau o gymoedd de Cymru yn awyddus i'r Blaid ddilyn safbwyntiau mwy gweriniaethol a sosialaidd. Yn eu plith oedd Emrys Roberts, dirprwy ysgrifennydd y Blaid, a oedd hefyd yn anfodlon â threfniadaeth ganolog y Blaid. Ar ben hyn oll roedd rhai aelodau blaenllaw yn corddi'r dyfroedd, gan gynnwys Huw T. a Phleidwyr y gogledd-ddwyrain. Cafodd Gwynfor Evans gryn drafferth wrth geisio cadw'r ddysgl yn wastad yn y cyfnod hwn, ac yr oedd yn ystyried Huw T. fel un a siglai'r ddysgl yn rhy aml – yn enwedig felly am fod gan Huw T. ffordd hwylus o ledaenu ei farn a'i gynlluniau drwy'r *Faner*, y papur newydd y bu'n berchen arno

21 Ibid.

am gyfnod.[22]

Dirywio wnaeth y berthynas rhwng Huw T. ac arweinyddiaeth y Blaid yn ystod y cyfnod 1962–64. Ddechrau Mehefin 1962, serch hynny, ysgrifennodd lythyr maith at Gwynfor Evans yn deisyf sgwrs ar dactegau gwleidyddol. Gosododd chwe phwynt ger bron yr arweinydd yn ymwneud â threfniadaeth y Blaid a'r angen '[…] i gael gafael ar rywbeth sydd o fewn amgyffred y dyn cyffredin, a ddaw â fe i rengoedd y Blaid'. Ond yn bennaf oll cododd y cwestiwn o bolisi'r Blaid o sefyll mewn etholiadau seneddol: 'A all y Blaid fod yn gocyn hitio ar waelod y Pol lawer hwy?' gofynnodd. Dyma fyddai byrdwn dadl Huw T. yn ystod y blynyddoedd dilynol.

Cafodd ateb buan a manwl gan Gwynfor Evans ar fater ymladd etholiadau seneddol:

> Wrth ymladd, cariwn ein neges i filoedd o gartrefi ar adeg pan yw'r bobl yn fwy byw yn wleidyddol; crëwn genedlaetholwyr lawer; cryfhawn ein peirianwaith, a daw'r Blaid yn rhywfaint o rym lle y gellid yn gynt ei hanwybyddu'n llwyr.

Cyfeiriodd at y cynnydd yn yr aelodaeth mewn etholaethau lle y bu'r Blaid yn ymladd etholiad a hefyd at ba mor ddiymadferth oedd yr Aelodau Seneddol a ystyrid yn Gymry da o fewn y pleidiau mawr. Honnai fod cyfanswm pleidlais y Blaid yn ddylanwad ar agweddau 'Whitehall', a phe '[…] pediem ag ymladd yn wleidyddol, yn lleol ac yn seneddol, hyd eithaf ein gallu, byddem yn llithro'n ôl yn hytrach na symud ymlaen; ac er arafed ein symud, yr ydym wedi symud ymlaen yn gyson […].'

Nid oedd Huw T. yn fodlon ag ymateb yr arweinydd, ac mewn llythyr at un o weithwyr y Blaid, Ray Smith, rai dyddiau'n ddiweddarach, mynegodd ei safbwynt unwaith yn rhagor:

> I have a great admiration for the Leadership but quite frankly I feel we might with advantage examine more closely the questions of tactics and policy. The Blaid has a terrifically strong weapon in Welsh Self-Government but one is driven to weeping almost by this slavish idea of seeking this through contesting for seats at Westminster.[23]

Nid Huw T. oedd yr unig Bleidiwr blaenllaw a oedd yn amau doethineb sefyll mewn etholiadau seneddol yn y cyfnod hwn. Anfonodd Islwyn Ffowc Elis, un o hoelion wyth y Blaid, lythyr hir at Gwynfor Evans yn Ebrill 1963 yn dadlau yn erbyn ymladd etholiadau seneddol. Nid atebodd Gwynfor Evans yn syth, ond ar ddechrau Mai anfonodd gylchlythyr bugeiliol 'cyfrinachol' at aelodau'r Blaid yn gosod ei resymau dros bolisi'r Blaid o ymladd etholiadau seneddol. Barnai '[…] pe

22 Roedd Huw T. wedi prynu'r *Faner* am £1 yn 1957.
23 Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Papurau Huw T. Edwards A1/701 ac A2/144.

peidiem ag ymladd etholiadau seneddol, fe gollem weithwyr, fe âi ein trefniadaeth ar chwâl ac fe ymdryllia'r Blaid. Y casgliad rhesymegol yw bod yn rhaid inni ymladd pa le bynnag a pha bryd bynnag y gallom.'[24] Y mis canlynol, rhoddodd Huw T. safbwynt gwbl wahanol mewn erthygl yn *Y Faner*, safbwynt a oedd yn ei ymddieithrio'n fwyfwy o'r arweinyddiaeth. Galwodd ar y Blaid i beidio ag ymladd etholiadau, gan ryddhau '[...] y nifer mawr sydd ym Mhlaid Cymru fel gallent sefyll fel ymgeiswyr yn eu plaid ddewisedig ymhlith y pleidiau eraill'. Dylid gollwng yr enw Plaid a defnyddio'r enw 'Mudiad Cenedlaethol Cymreig' a datgan '[...] mai ei hamcan ydyw ennill mwyafrif o'r genedl i'r syniad na all cenedl fyw heb holl adnoddau'r mudiad yn cael eu canolbwyntio ar hynny, pe gwneid hyn, dyna Gymru yn wynebu ar gyfnod newydd hollol, a'r rhaniadau di-fudd presennol yn suddo i mewn i un ffrydlif rymus, ymosodol.' Cyfeiriodd at weithgaredd yr ILP, a gâi ei ystyried fel y mudiad mwyaf effeithiol o safbwynt creu llunio barn gyhoeddus a welodd democratiaeth Brydeinig erioed, cyn iddi ddechrau cystadlu â'r Blaid Lafur am seddau seneddol.[25]

Er bod cefnogaeth i'r syniad o beidio â sefyll mewn etholiadau seneddol, go brin fod cefnogaeth i syniad Huw T. o droi Plaid Cymru yn fudiad yn hytrach nag yn blaid wleidyddol. Er ei fod ef ei hun yn dra beirniadol o arweinyddiaeth a threfniadaeth y Blaid, nid oedd y swyddog Emrys Roberts, er enghraifft, yn cytuno â safbwynt Huw T. Ysgrifennodd ato: 'Pwysau plaid wleidyddol annibynnol sy'n bygwth tynnu pleidleisiau oddi arnynt sy'n gorfodi'r pleidiau eraill i ddechrau meddwl yn nhermau Cymreig, a hyd y gwelaf i, fe gollid hyn oll o roi'r gorau i ymladd etholiadau seneddol a lleol.'[26]

Fodd bynnag, ni chlywyd rhagor am syniadau Huw T. wedi i Gwynfor Evans, gyda'i fuddugoliaeth ysgubol yn 1966, brofi bod modd i'r Blaid ennill etholiad seneddol.

* * *

Cyfeiriwyd uchod at y termau a ddefnyddiwyd wrth drafod y dadleuon dros ddatganoli. Erbyn 1964, llwyddwyd i ennill 'parity with Scotland' – a byddai llawer yn dadlau mai dyna'r nod ymarferol i Gymru heddiw hefyd. Go brin mai syniadau o wella 'the machinery of government' oedd y tu ôl i'r datblygiadau hyn, ond yn hytrach roedd yn ganlyniad i bwyso parhaus gan genedlaetholwyr a'r rhai cenedlaetholgar yng Nghymru, fel Huw T., am gydnabyddiaeth ('recognition') o fodolaeth Cymru fel cenedl, a'r hawliau a ddeilliai o hynny. Dyma fyddai'n cyfiawnhau mesur o ddatganoli. I raddau helaeth, consesiynau a wasgwyd o lywodraethau'r dydd a gafwyd, a hynny yn wyneb y gwrthwynebiad o fewn y sefydliad Prydeinig ac, yn benodol, ymhlith mandariniaid Whitehall.

24 Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Papurau Gwynfor Evans G2/3; Archifau Plaid Cymru B870.
25 *Y Faner*, 20 Mehefin 1963.
26 Papurau Huw T. Edwards A1/704.